# Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

**2010 mccc 8**

*Cyffredinol*

## 19 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer–

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthiadau gwahanol ar achos, ardaloedd gwahanol, personau gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o berson neu ddibenion gwahanol;

(b) i beri i ddarpariaeth wahanol fod yn gymwys ar adegau gwahanol;

(c) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;

(d) i wneud darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, dros dro, trosiannol neu ddarpariaethau arbed fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

[F1](3) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

[F1](4) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 19(3)(4) wedi ei hepgor (11.9.2019) yn rhinwedd Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (anaw 4), a. 44(1)(e), **Atod. 2 para. 3(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 19 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Gwastraff (Cymru) 2010, Adran 19.